# y dinesydd

Mehefin 1999 | PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH | Rhif 246

# Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau cynnes i'r holl enillwyr o ardal *Y Dinesydd* yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llanbedr Pont Steffan - y canlyniadau'n llawn ar dud. 3.



## Ble mae Cymry Ifainc Talentog Caerdydd?

Ar ôl y llongyfarch, a heb ddibrisio dim ar gamp ac ymdrech y cystadleuwyr a'r enillwyr o gylch Caerdydd, rhaid cyfaddef mai siomedig at ei gilydd oedd canlyniad y sir mewn perthynas â'r siroedd eraill: daeth yn ddegfed allan o un ar bymtheg. Bydd rhaid wrth dipyn mwy o ymdrech gyffredinol os ydym i wella ar hynny erbyn ymweliad yr Eisteddfod â Chaerdydd yn 2001 – a phob pedair blynedd ar ôl hynny, os gwireddu y cynnig i gynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwn bob pedair blynedd o 2005 ymlaen! A rhaid gofyn yn benodol, ble mae holl Gymry ifainc talentog Caerdydd rhwng 19-25 oed?

*< Parti Bechgyn buddugol 12-15 oed Ysgol Glantaf*



*Plant Uned Arbennig Ysgol Coed-y-gof a gafodd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Gwaith Creadigol 3D dan 12 oed: canlyniad arbennig i blant a ymdrechodd yn arbennig. Arddangoswyd eu cywaith, 'Y Ffermwr Trist', ym Mhabell y Celfyddydau ar faes yr Eisteddfod yn Llambed. Yn y llun, o'r chwith: Siân Fouladi, Meilir Siôn, Robin Dyer, Allan Webber, Darren Jones, Jordanne Richards, Laleh Hegarty, Rhys Jones.*

## Y Prif Seremonïau

Er na ddaeth neb o gylch Caerdydd i'r brig yng nghystadlaethau prif seremonïau Eisteddfod yr Urdd eleni, daeth dwy fyfyrwraig o Brifysgol Caerdydd yn agos iawn at gipio'r Gadair. Mae Gwenan Mared Roberts, a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth, yn fyfyrwraig ymchwil yn Adran y Gymraeg, yn paratoi traethawd doethuriaeth ar waith Gwenlyn Parry, a Nia Eleri Evans, a ddaeth yn gydradd drydydd, ym mlwyddyn olaf ei gradd ac yn gobeithio astudio ar gyfer MA yn Adran y Gymraeg y flwyddyn nesaf.

Llongyfarchiadau hefyd i David Leggett o Aelwyd Ifor Bach – aelwyd myfyrwyr Prifysgol Caerdydd – ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth Tlws y Prif Gyfansoddwr. Bu bron i Gaerdydd allu hawlio enillydd y Fedal Ddrama, Luned Emyr, gan fod ei thad, John Emyr, wedi dechrau ar ei waith yn Olygydd y Cofnod yn y Cynulliad Cenedlaethol; ond nid yw gweddill y teulu wedi symud i lawr o Fangor eto, ysywaeth! Cefnder Luned, Ceiri Torjussen o Riwbina, oedd enillydd Tlws y Prif Gyfansoddwr yn Eisteddfod yr Urdd y llynedd.



*Parti Offerynnol buddugol dan 12 oed Ysgol Bro Eirwg*

# Y Dinesydd

**Mehefin 1999, Rhif 246.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Gorff/Awst at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 25 Mehefin:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333090).
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Ms Rhian Morgan, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NJ (Ffôn: 01222-418270)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

............................................. Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................


............................................. Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 8** **Mehefin 1999**



**Ar Draws**

1. Mur maith uwchben Noddfa rywle yn Lloegr (11)
7. Y swyddog cyfeillionus yn dwyn y baich (7)
9. O fewn ychydig i fod yn annwyl (4)
11. Lle yr argreffir canol y corff (5)
12. Ymffrostio sut mae iro bol! (6)
14. Rhywbeth yn tyfu yn yr ardd neu ar wyneb taid! (4, 2, 3, 2)
18. Ych! Magl yn troi o gwmpas (6)
20. 'Satan a'ch ceisiodd chwi, i'ch ___ fel gwenith' (Luc) (5)
22. Llawen yw'r dyn o'r dwyrain (4)
23. Gwell ras wyllt i ffeindio un ar yr ystlys (7)
24. 'Segur faen sy'n gwylio'r fangre. Yn __ ____ ___ o'r gwynt' (Crwys) (1, 6, 4)

**I Lawr**

2. 'O! Arglwydd da, ____
Dy wirioneddau gwiw
Yn rymus ar fy meddwl
I aros tra fwyf byw.' David Charles (ieu.) (7)
3. Dos i fyny ac i lawr (4)
4. Sefydliad i'w dringo (5)
5. Mwyafrif 4 mewn amgylchiadau tywyll yn ennill gwybodaeth (5)
6. Pyst di-ben, rhyfedd yw'r gwanaf (5)
8. Afal pwdr yn dilyn bron y cyfan o'r ysgall - dyna esgeulus (8)
10. Geni brân frith neilltuol (8)
13. Cais geffyl heb ben (3)
15. 'Dihangol ydwyf hyd yn hyn,
Fy Nhad sydd __ __ __ ' (Ieuan Glan Geirionydd) (3, 1, 3)
16. Anifail yn edrych yr un peth o'r ddau ben! (5)
17. Wele yn Lloegr wr i hon (5)
19. Rhaib cant yn dilyn yr eiddil (5)
21. Dal ati er bod yn rhan o gwymp arall (4)

**Atebion Croesair 7 (Mai 1999)**

**Ar Draws:** 1. Diarfogi; 4. Agen; 8. Dyn; 9. Traeth; 10. Llid; 11. Ysgafnu; 12. Yfory; 13. Y Gedeoniaid; 17. Telor; 18. Ysgubol; 20. A fo; 21. Ystyr; 22. Cur; 23. Clai; 24. Ymlafnio.

**I Lawr:** 1. Dedwydd; 2. Annog; 3. Gwadu; 5. Galluogi; 6. Nodwydd; 7. Athrylithgar; 9. Tafod yr hydd; 14. Golgotha; 15. Stranc; 16. Glirio; 18. Ystum; 19. Bacwn.

**Croesair Rhif 7**

Derbyniwyd deg ymgais, pump ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfrau at Eira Jones, 42 Rhydhelyg Ave., Y Mynydd Bychan. Derbyniwyd yr atebion cywir eraill oddi wrth Megan Wyn Jones a Carys Humphries, Bangor, Heledd Hall, Treganna a James Wiegold, Rhiwbina.

**Cystadleuaeth Mehefin 1999**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 26 Mehefin.

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 25 Mehefin**
Cwmni Ribogerta yn cyflwyno 'Viva Maztoca!' – cerddoriaeth gitâr glasurol o America Ladin a chyfieithiadau Gareth Miles o waith beirdd enwocaf America Ladin – gyda Lisabeth Miles a Rhisiart Arwel, yng Nghanolfan Chapter am 8 p.m. Tocynnau £3 a £4. Manylion pellach: 614435.

**Gwener, 25 Mehefin**
Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd: Barbeciw ym Mharc Porthceri, Y Barri, o 6 p.m. ymlaen (yn adeilad yr eglwys yn Stryd Harriett, Cathays, os bydd yn wlyb).

**Sadwrn, 26 Mehefin**
Cynhadledd Undydd Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru ar y thema 'Llên Gwerin a'r Anwybod', yn Ystafell Bwyllgor Amgueddfa Werin Cymru, 10.00-4.00. Siaradwyr: J. Towyn Jones, John Owen Huws a Robin Gwyndaf. Manylion pellach: Tecwyn Vaughan Jones (01654-702702).

**Sadwrn, 26 Mehefin**
Cylch Meithrin y Bont-faen: Twmpath gyda *Jac y Do* o 6.30 p.m. ymlaen ar Fferm Great Frampton, Llanilltud Fawr. £8 i oedolion (yn cynnwys bwyd); plant yn rhad ac am ddim. Manylion pellach: Eleri Long (01446-750613).

**Sadwrn, 26 Mehefin**
Clwb Ifor Bach, 11 Heol Womanby: Bandiau byw – *Anweledig, Tystion, Breag.* 10 p.m.-2.30 a.m.

**Mercher, 30 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Pleserdaith. Manylion pellach: 495980.

**Mercher, 30 Mehefin**
Ebeneser, Heol Siarl: Cyngerdd Mawreddog am 7.30 p.m. – Datganiad ar yr Organ: Huw Tregelles Williams; Unawdydd: Fflur Wyn (Brynaman); Côr Meibion Caldicot; Cyflwynydd: Frank Lincoln. Pris mynediad: £5 (£3 i bensiynwyr; £1 i ddisgyblion ysgol). Yr elw at Gronfa'r Deillion.

**Llun, 5 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Swper Pentymor, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.00 p.m.

**Sadwrn, 10 Gorffennaf**
Barbeciw yn 47 Wingfield Rd., Yr Eglwys Newydd, o 6 p.m. ymlaen, dan nawdd Plaid Cymru Gogledd Caerdydd. Gwestai: Owen John Thomas, AC. Tocynnau: £6 (oedolion); £3 (plant). Croeso i bawb.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 628754).*

## Canlyniadau Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Llanbedr Pont Steffan a'r Fro, 1999

**Ysgolion Cynradd Cymraeg**

- Gwaith Creadigol 2D dan 8 oed — 3ydd: Tomos Evans, Ysgol Mynydd Bychan
- Gwaith Creadigol 3D: 8-10 oed — 1af: Lili V. Davies, Ysgol Iolo Morganwg, Y Bont-faen
- Gwaith Creadigol 3D dan 12 oed — 1af: Ysgol Coed y Gof
- Cerameg/Crochenwaith: 10-12 oed — 1af: Siân Rees, Ysgol y Wern
- Mathemateg (cywaith): 8-10 oed — 2il: Morter Curig, Ysgol Sant Curig, Y Barri
- Gwyddoniaeth (cywaith): 10-12 oed — 3ydd (cydradd): H2O, Ysgol Sant Curig, Y Barri
- Côr dan 12 oed — 2il: Ysgol Melin Gruffydd
- Unawd Llinynnol dan 12 oed — 2il: Marged Jones, Ysgol y Wern
- Parti Offerynnol dan 12 oed — 1af: Ysgol Bro Eirwg
- Parti Llefaru dan 12 oed — 3ydd: Parti Kara, Ysgol Gymraeg Treganna
- Ymgom dan 12 oed — 3ydd: Ysgol Gymraeg Treganna

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**

- Barddoniaeth: 12 oed — 2il (cydradd): Trystan Dafydd
- Cyfansoddi Drama: 12-15 oed — 2il: Elinor Evans; 3ydd (cydradd): Elin Kate Pierce-Evans
- Deuawd: 12-15 oed — 2il: Elin a Sara
- Parti Bechgyn: 12-15 oed — 1af: Ysgol Gyfun Glantaf
- Grŵp Roc dan 15 oed — 3ydd: Ysgol Gyfun Glantaf
- Unawd Llinynnol: 15-19 oed — 3ydd: Jonathan Shapey
- Unawd Piano: 15-19 oed — 3ydd: Frances Kelly
- Tîm Siarad Cyhoeddus: 15-19 oed — 1af: Ysgol Gyfun Glantaf
- Cyflwyniad Theatrig: 15-19 oed — 3ydd (cydradd): Ysg. Gyf. Glantaf
- Dawnsio Creadigol: 15-19 oed — 2il: Ysgol Gyfun Glantaf
- Dawnsio Disgo: 15-19 oed — 2il: Tîm Lisa
- Gymnasteg unigol i ferched: 15-19 oed — 2il: Catrin Richards



*Tîm Siarad Cyhoeddus buddudol 15-19 oed Ysgol Glantaf. O'r chwith: Rhiannon Michael, Jonathan Shapey, Eleri James a Melanie Morris.*

**Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**

- Argraffu: 12-14 oed — 3ydd: Carly Jenkins
- Gwyddoniaeth (cywaith): 12-15 oed — 3ydd: Cadw'n Dwym
- Unawd Piano: 12-15 oed — 2il: Siôn Trefor
- Unawd Telyn: 12-15 oed — 2il: Mali Llywelyn,
- Côr SA: 12-15 oed — 3ydd: Ysgol Gyfun Plasmawr
- Cyflwyniad Llafar: 12-15 oed — 3ydd: Ysgol Gyfun Plasmawr
- Dawnsio Gwerin: 12-15 oed — 2il: Ysgol Gyfun Plasmawr

**19-25 Oed**

- Siarad Cyhoeddus Unigol: 19-25 oed
  2il: Catrin Prys William (Aelod Unigol, Gorllewin Caerdydd)
- Dawnsio Gwerin: 15-25 oed
  3ydd: Elgan Morgan, Aelwyd Ifor Bach

**Dysgwyr**

- Tâp Sain i Ddysgwyr: 12-15 oed
  1af: Y Pelicans Pinc, Ysgol Uwchradd Howell, Llandaf
  2il: Twbas Teledu, Ysgol Uwchradd Howell, Llandaf
- Tâp Sain i Ddysgwyr: 15-19 oed
  3ydd: Grŵp Daf, Ysgol Uwchradd Caerdydd
- Rhyddiaith i Ddysgwyr: 15-17 oed
  1af: Bethan Thomas, Ysgol Uwchradd Caerdydd
  2il: Helen Hardy, Ysgol Uwchradd Howell, Llandaf
  3ydd: Caroline Howe, Ysgol Uwchradd Caerdydd
- Rhyddiaith i Ddysgwyr: 17-19 oed
  1af: Amy Hancock, Ysgol Uwchradd Caerdydd
  2il: Emma Kate Thomas, Ysgol Uwchradd Caerdydd
  3ydd: Laura Barnfather, Ysgol Uwchradd Caerdydd
- Llefaru i Ddysgwyr: 12-15 oed
  2il: Grŵp Della, Ysgol Uwchradd Howell, Llandaf
- Llefaru i Ddysgwyr: 15-19 oed
  1af: Parti Elizabeth, Ysgol Uwchradd Howell, Llandaf
- Cerdd Dant i Ddysgwyr dan 19 oed
  3ydd: Ysgol Uwchradd Corpus Christi
- Gymnasteg unigol i ferched: 15-19 oed
  3ydd: Becky Morgan, Ysgol Uwchradd Corpus Christi
- Gymnasteg (parau) dan 19 oed
  3ydd: Becky a Natalie, Ysgol Uwchradd Corpus Christi

**Bydd rhagor o luniau o Eisteddfod yr Urdd yn y rhifyn nesaf.**


CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

## Arolygwyr Ysgolion yn Canmol

Llongyfarchiadau i ddwy o ysgolion Cymraeg Caerdydd ar ennill canmoliaeth hael gan Arolygwyr yn ddiweddar.

Canmolwyd **Ysgol Bro Eirwg** am fod yn ysgol hapus ac ymdeimlad cryf o bwrpas a chyfeiriad ynddi. Llongyfarchwyd yr ysgol ar ddarparu gwybodaeth o safon uchel iawn i'r rhieni, gan gynnwys cylchlythyr dwyieithog wythnosol. Nodwyd bod y plant yn cyfathrebu'n arbennig o dda yn y Gymraeg, sef ail iaith y rhan fwyaf o lawer ohonynt. Canmolwyd y Pennaeth, Mr Glyn Evans, am arweiniad cyson a chefnogol, a'r holl staff am eu gwaith caled, eu hymrwymiad ac ar ansawdd eu cyfarwyddyd i'r disgyblion.

Canmol hefyd a wnaeth yr Arolygwyr a aeth i **Ysgol Gyfun Glantaf** – gan ganmol, ymhlith pethau eraill, ansawdd yr addysgu, ymroddiad yr athrawon, ethos Gymreig yr ysgol a safon ymddygiad y disgyblion. Yn ôl yr Arolygwyr, bu cynnydd yn safonau'r ysgol rhwng yr arolygiad a gynhaliwyd yn 1994 a'r un presennol, a chynnydd hefyd yn ansawdd canlyniadau arholiadau allanol. Yn ôl y Prifathro, Mr Huw Thomas, Ysgol Glantaf oedd yr ail orau yng Nghymru yn 1998 o ran pwyntiau cyfartalog TGAU.

## Gwnewch bopeth yn Gymraeg

Ddiwedd mis Mai, cynhaliodd Bwrdd Croeso Cymru gyfarfod yn nhŷ bwyta Le Gallois - Y Cymro - i dynnu sylw pobl fusnes at bwysigrwydd gwerthu'r Gymraeg a'i thraddodiadau ar bob cyfle a gawn yng Nghymru.

Un o nifer o gyfarfodydd ar hyd a lled Cymru oedd hwn a chan ein bod yn y brifddinas roedd yn naturiol i Jonathan Jones - prifweithredwr newydd y Bwrdd, Cymro Cymraeg a'i wreiddiau yn sir Benfro - a'r siaradwyr eraill fanylu ar dde-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Caerdydd. Gyda llaw roedd y cyfarfod yn gyfan gwbl trwy'r iaith Gymraeg.

Yng Nghyfarfod Blynyddol *Y Dinesydd* eleni, mynegwyd pleser bod rhai sy'n gweithio trwy'r Gymraeg yn y ddinas yn hysbysebu yn y papur a'u bod trwy wneud hynny wedi ennill nifer o gwsmeriaid newydd o blith y Cymry Cymraeg; felly os oes Cymry Cymraeg eu hiaith yn dod i weithio i chi a chwithau'n hapus â'r gwaith, rhowch wybod i'r *Dinesydd*, fel y gallwn gefnogi ein gilydd.

Mae tŷ bwyta Le Gallois ym Mhontcanna yn enghraifft wych o hyn o beth. Pur anaml yng Nghaerdydd, a ninnau'n mynd allan am bryd o fwyd, y cawn wasanaeth gan rywun Cymraeg ei iaith. Graham ac Anne Jones (a arferai redeg Llety'r Cymro yn Heol y Gadeirlan), a'u plant Padrig ac Elen, ynghyd â'u partneriaid Karen Pugh a Francis Dupuy sy'n rhedeg y lle. Mae enw'r lle yn dangos bod yma briodas hyfryd rhwng dwy wlad, Cymru a Ffrainc, ac mae'n dda i'r rhai hynny sy'n gweld y Gymraeg yn anodd ei dysgu, wybod bod Francis, y Ffrancwr, yn siarad Cymraeg yn rhugl. Gall darllenwyr *Y Dinesydd* gael gwasanaeth cwbl Cymraeg yma yng nghanol awyrgylch Gymreig.

Mae'n dda cael enghreifftiau eraill o Gymry Cymraeg yn gwasanaethu yng ngwestai'r ddinas, ond mae angen inni fynd ymhellach na hynny. Daw pobl o sawl gwlad yn y byd i aros yng Nghaerdydd ac wedi cyrraedd gwesty maen nhw'n aml yn gofyn ble gallan nhw fynd i fwynhau'r bywyd traddodiadol Cymreig. Mewn ffordd rydym yn lwcus yng Nghaerdydd trwy fod ein hamgueddfeydd a'n castell gyda ni, ond mae yn y ddinas lawer mwy. Y pethau bychain hynny sy'n gonglfeini traddodiad. Dywedodd Jonathan Jones fod diwylliant a threftadaeth yn dod yn gynyddol bwysig i dwristiaid wrth ddewis lle i fynd ar wyliau a bod angen gwneud llawer mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth werthu Cymru i'r byd.

Yn y cyfarfod soniwyd hefyd nad oedd digon yn cael ei wneud ymhlith rhieni Caerdydd ac eraill i ddarbwyllo'u plant y gallai gyrfa ym myd twristiaeth (a gwerthu Cymru i'r byd) fod yn wir ddiddorol. Yng nghyswllt hyn roedd yn dda gweld i brifathrawon ein dwy ysgol uwchradd ddwyieithog fynychu'r cyfarfod. O hyn ymlaen gallan nhw ofalu bod eu hathrawon gyrfaoedd yn gallu cyfeirio'r disgyblion sy'n gadael at o leiaf un ffynhonnell waith gyfoethog arall.

**W. J. Jones**

## Llongyfarchiadau

– i Nefydd Jones ar gael ei wneud yn bartner yng nghwmi cyfreithwyr Eversheds.
– i Nia Percy ar gael ei phenodi'n rheolwraig darlledu Barcud Derwen yn y Cynulliad Cenedlaethol.
– i Gethin While ar gael ei benodi'n gyfarwyddwr Bafta Cymru.
– i Geraint Lewis ar gael ei gomisynu i lunio darn o gerddoriaeth i'w berfformio yn rhan o seremoni agor y Cynulliad Cenedlaethol. Gosododd ran o awdl T. Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', ar gyfer ei chanu gan Gôr yr Opera Cenedlaethol wrth i'r Frenhines gerdded at Siambr y Cynulliad.
– i Siriol Griffiths, Rhiwbina, ar ennill Ysgoloriaeth T. Glynne Davies i ddilyn cwrs newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Ar hyn o bryd y mae'n gweithio yn Swyddfa'r Cofnod yn y Cynulliad Cenedlaethol.

## Cydymdeimlwn

– â Siân Osborne, Yr Eglwys Newydd, a'r teulu ym marwolaeth sydyn ei thad, R. Emyr Jones, Tywyn.
– â'r Parch. Haydn Thomas, Treganna, ym marwolaeth ei fam.
– â Gareth Richards, argraffydd *Y Dinesydd*, ym marwolaeth ei fam, Mrs Wendy Richards, Castell-nedd.

## Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun

Mae Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun yn dathlu ei chanmlwyddiant eleni ac yn awyddus i gysylltu â chynifer o'r cyn-ddisbyblion â phosibl. Maent yn bwriadu cyhoeddi llyfr ar hanes yr ysgol ac wedi sefydlu safle ar y We. Am fanylion pellach, cysyllter â Mr D. B. Wiliams neu Mrs Beryl Lloyd Roberts ar 018242-703933.

### Clwb Cant Cyfeillion Cymru-Ariannin

Annwyl gyfeillion,

Mae Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Cymru-Ariannin yn awyddus i godi cronfa gref er mwyn gallu estyn cymorth i'r ymdrechion i ddiogelu'r Gymraeg a'i diwylliant yn y Wladfa. Mae'n fwriad gan y Pwyllgor Gwaith sefydlu Clwb Cant Cyfeillion Cymru-Ariannin i ddechrau ar 1 Gorffennaf. Hoffwn fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith eich gwahodd i gefnogi'r cynllun. Anfonwch eich enw a chyfeiriad ataf ac fe anfonir ffurflen atoch yn rhoi'r manylion llawn am y cynllun. Deg punt y flwyddyn fydd y gost.

Diolch ymlaen llaw
Gwilym E. Roberts
6 Heol Wen, Rhiwbina, Caerdydd. Ffôn: 693254.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Minny Street, Caerdydd

Llongyfarchiadau i Catrin a Dyfrig Parri (Pontcanna) ar enedigaeth eu hail merch, Lleucu Elenid - chwaer fach i Enlli Angharad. Pob dymuniad da i'r teulu.

Edrychwn ymlaen at Gyfarfod Sefydlu y Parchedig Brifathro Eifion Powell yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yn Minny Street, nos Sadwrn, 3 Gorffennaf am 6 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

## Y Tabernacl

Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol Cymanfa Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg yn y Tabernacl, Yr Ais ddydd Mercher ac Iau, 26-27 Mai.

Ar y prynhawn Mercher hanesyddol hwnnw pan agorwyd y Cynulliad yn swyddogol yn y Bae, daeth ychydig o'r ffyddloniaid ynghyd i gynnal cynhadledd ac yn yr hwyr traddodwyd anerchiad gan lywydd newydd y Gymanfa, Mr D. Eurig Evans, cyn-ysgrifennydd y Tabernacl. Pwysleisiodd bwysigrwydd y Beibl, yr Ysbryd Glân, ffydd a chred bersonol ym mywyd pob Cristion.

Ar y nos Iau croesawyd Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru, y Parchg Dafydd H. Edwards, sir Benfro. Yn amserol wedi Sulgwyn 1999, yr Ysbryd Glân hefyd oedd thema ei neges rymus.

Pasiwyd rhai penderfyniadau gan y Gynhadledd gan gynnwys y canlynol:

> Dymuna Cymanfa Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg anfon cyfarchion at Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth i'r corff gwleidyddol newydd gychwyn ar ei daith i wasanaethu Cymru, gan ofyn iddo ddwyn dymuniadau da y Gymanfa i aelodau'r Cynulliad.
>
> Dymuna'r Gymanfa hefyd anfon cyfarchion at Swyddog Cyswllt Cytûn, sef y Parchg Aled Edwards, i ddymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd gan geisio datblygu gydag ef wedd ymarferol i'r eglwys yn llywodraeth Cymru.

## John Evans, Waunfawr

Y mae'r gwaith ar droed o sefydlu Amgueddfa Gymunedol yn Hen Dŷ Capel Waunfawr, a bwriedir dadorchuddio cofeb i John Evans (mapiwr y Missouri a geisiodd ddarganfod yr Indiaid Cymreig, disgynyddion Madog) yng ngardd y Tŷ Capel yn Awst 1999. Bwriedir hefyd sefydlu llyfrgell yn yr Amgueddfa yn cynnwys copïau o lyfrau a gyhoeddwyd gan bobl yr ardal. Byddai'r Amgueddfa yn falch o glywed gan unrhyw un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* sydd â llyfrau neu ddogfennau perthnasol yn eu meddiant neu sydd am gyfrannu mewn rhyw fodd arall at y datblygiad hwn. Ffonier 01286-650721.

## MENCAP a *Heno*

MENCAP yw'r elusen y mae'r rhaglen deledu *Heno* wedi'i dewis eleni ar gyfer ei hapêl flynyddol. Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun, 21 Mehefin, bydd y rhaglen yn codi arian ar gyfer yr elusen honno. Os gallwch helpu mewn rhyw fodd tuag at godi'r arian, cysylltwch ag Eilir Evans ar 01554-880859 neu Rebecca Griffiths ar 01554-880824.

## Bedyddio yn y Crwys

Bedyddiwyd Mathew Siôn, mab Carys ac Ian Watson, a Iestyn Marc, mab Arran ac Allan Dallimore, yng Nghapel y Crwys yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r ddau deulu.

## Cymwynaswyr Madagasgar

Ym mhrifddinas Madagasgar ceir 'Stryd David Jones' a 'Stryd Thomas Bevan', yn coffáu dau Gymro a fu'n arloeswyr yn y gwaith o gyflwyno'r ffydd Gristnogol i'r ynys. Adroddir eu hanes arwrol yn llyfr diweddara'r Dr Noel Gibbard, *Cymwynaswyr Madagasgar 1818-1920: Cyfraniad Cymru i'r Dystiolaeth Gristnogol ym Madagasgar*, a lansiwyd fis diwethaf mewn cyfarfod arbennig yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg yn Harriett St., Cathays. Cyhoeddir y llyfr gan Wasg Bryntirion. Dyma'r ail gyfrol gan Dr Gibbard ar genhadon o Gymru o fewn y flwyddyn, gan iddo gyhoeddi'n ddiweddar gyfrol ar Griffith John o Abertawe, un o genhadon Cristnogol amlycaf Tseina.

## America Ladin yn Nhreganna

Bydd Cwmni Theatr Rigoberta unwaith yn rhagor yn edrych i America Ladin gyda chynhyrchiad wedi'i gomisynu'n arbennig ac sydd wedi'i seilio ar waith tri bardd o'r cyfandir hwnnw. Dyfeisiwyd y cynhyrchiad 'Viva Maztoca!' gan Gareth Miles ac ef a gyfieithodd gwaith y tri bardd: Pablo Neruda o Chile (un o enillwyr llenyddol Gwobr Nobel), Ernesto Cardenal, offeiriad a bardd o Nicaragua, a Nicolas Guillen o Cuba. Lisabeth Miles fydd yn perfformio gwaith y tri bardd, a bydd y gitarydd clasurol Rhisiart Arwel yn adleisio'r cerddi gyda cherddoriaeth o Frasil, Cuba a Sbaen. Yn debyg i waith blaenorol Cwmni Rigoberta, mae'r cynhyrchiad yn ceisio codi ymwybyddiaeth ynghylch brwydrau beunyddiol cymunedau cyffredin America Ladin. Gellir gweld y cynhyrchiad nos Wener, 25 Mehefin, am 8 p.m. yng Nghanolfan Chapter, Treganna. Tocynnau: £3 a £4. Manylion pellach: 614435.

## Llyfrau Cymraeg i Oxfam

Annwyl gyd-ddarllenwyr *Y Dinesydd*,

Mae siop Oxfam Penarth yn apelio am lyfrau Cymraeg o bob math, mewn cyflwr rhesymol. Y nod yw sefydlu modiwl (neu set o silffoedd) o lyfrau Cymraeg gyda dewis eang o deitlau i wasanaethu Penarth a'r Fro, Caerdydd a ble bynnag. Rydym hefyd yn gobeithio ychwanegu at ein silffoedd Saesneg, sy'n dal rhyw 600 o lyfrau ar hyn o bryd, gyda theitlau newydd i gymryd lle'r rhai a werthir bob dydd. Bydd y siop yn ei thro yn codi pris teg am y llyfrau ar ei chwsmeriaid, er budd gwaith Oxfam. Gan nad oes gan y siop ym Mhenarth ei chyfrif banc ei hun mae pob ceiniog a dderbynnir yn mynd yn ddyddiol trwy gyfrwng un o'r banciau'n syth i gyfrif canolog Oxfam yn barod i'w ddefnyddio yng ngwaith Oxfam yn y trydydd byd.

Mae manylion am y llyfrau Cymraeg sydd ar werth yn barod ac am y math o lyfrau rydym yn gallu eu gwerthu ar gael gennyf i: ffôn: 01222 350088 (cartref) neu trwy'r siop yn 8 Windsor Road yng nghanol tref Penarth (ffôn: 706358). A chofiwch, os oes cwpl o oriau sbâr gennych chi yn ystod yr wythnos, rydym ni ym Mhenarth, fel pob elusen mae'n debyg, wastad yn chwilio am helpwyr gwirfoddol newydd.

Nic ap Glyn
Dirprwy reolwr (gwirfoddol)
90 Plassey Street, Penarth CF64 1EN

# YSGOL GLANTAF

## Crwydro'r Cyfandir

Yn ystod gwyliau'r Pasg fe ddechreuodd llond bws o ddisgyblion Ysgol Glantaf ar wibdaith 10 diwrnod i'r Almaen, y Weriniaeth Siec a Gwlad Pwyl. Daeth y bws yn ail gartref i ni yn ystod y daith wrth i ni fwyta a chysgu arno. Ac mae'n rhaid dweud bod yr athrawon a'r disgyblion wedi dod yn ail deulu i mi yn ystod y daith. Roedd y gwmnïaeth a'r berthynas glòs rhwng disgyblion ac athrawon ar y daith yn arbennig.

Cawsom ymweld â dinasoedd prydferth a dieithr. Roedd Nuremburg a Phrag yn wefreiddiol o bert, strydoedd y ddwy yn hudolus yn eu gwahanol ffyrdd. Roeddem yn ffodus bod y tywydd mor braf fel y cawsom weld y llefydd ar eu gorau. Roedd y tywydd braf hefyd yn darparu'r esgus i'r merched fynd i brynu crysau-T gan ein bod ni i gyd wedi pacio dillad gaeaf!

Wrth gwrs, taith addysgiadol oedd hon i fod ac felly fe gawsom ein siâr o amgueddfeydd ac eglwysi cadeiriol! Ond y gweithgareddau gyda'r nos sydd wedi eu hoelio yn fy meddwl i a'r sbort a gawsom gyda'n gilydd. Rwyf hefyd yn cofio treulio llawer o'n hamser yn McDonalds gan eu bod mor eithriadol o rad yn y Weriniaeth Siec! Uchafbwynt y daith i mi oedd Noson yr Oscars ar y noson olaf lle yr anrhydeddwyd rhai o'r disgyblion am eu campau yn ystod y daith. Roedd hi'n noson ddoniol iawn a'r athrawon yn cael dial ar y disgyblion am eu cadw ar ddihun gyda'r nos!

Serch yr hwyl i gyd, nid oedd pob profiad mor bleserus. Profiad dirdynnol oedd ein hymweliad ag Auschwitz. Doedd dim byd a allai fod wedi ein paratoi ni ar gyfer yr hyn oedd yn ein hwynebu yno. Rwy'n gwybod na fyddaf byth yn anghofio'r profiad. Roedd y trip i gyd yn fythgofiadwy a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r athrawon hynny a drefnodd y cyfan.

**Eleri James**

## Taith Glantaf i Barcelona

Yn ddiweddar bu'r Adran Gelf yn ymweld â dinas Barcelona, er mwyn i'r un ar bymtheg o ddisgyblion ac athrawon yr adran gael mwynhau dinas sydd â chymaint i'w gynnig i ymwelwyr. Mae Barcelona yn brif ddinas Catalonia ac wedi ei lleoli yng ngogledd-ddwyrain Sbaen ger yr arfordir. Dinas fywiog ydyw ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, gyda'i diwylliant a'i chyfoeth ym myd celf yn denu miliynau o dwristiaid.

Buom yn aros am bedair noson yng ngwesty 'Espana' (ger un o brif strydoedd y ddinas, sef Ramblas), ac yn ystod y cyfnod hwn fe gawsom y cyfle i brofi'r awyrgylch unigryw sydd yn bodoli yn y ddinas, gan ymweld ag amryw o orielau, adeiladau hanesyddol ac ardaloedd eraill o ddiddordeb. Cynhwysodd yr ymweliad hwn daith i Balas Guell, Parc Guell a'r Sagarada Familia a gafodd eu creu gan artist sy'n nodweddiadol o gelf y ddinas, sef Antoni Gaudi. Hefyd roedd ymweliad ag orielau Miro, Picasso a Dali, ac Eglwys Gadeiriol Santa Maria del Mar.

Yr hyn sydd yn arbennig ynglŷn â Barcelona yw'r ffaith bod y mathau o gelf a welir a'u cyfnodau mor eang, gan amrywio o adeiladau hanesyddol a Gothig, i orielau sydd yn cynnwys nifer o weithiau haniaethol. Yn bersonol un o'r agweddau wnes i ei fwynhau fwyaf oedd y ffaith taw nid yn unig mewn arddangosfeydd ac adeiladau pwysig roedd gweithiau creadigol y wlad i'w cael, ond ceir enghreifftiau o gyfoeth celfyddydol hyd yn oed ar strydoedd, tai a siopau'r ddinas.

Yn sicr, rwyf yn argymell unrhyw un sydd yn awyddus i gael gwyliau sy'n llawn ysbrydoliaeth greadigol, golygfeydd anhygoel a diwylliant diddorol i ymweld â Barcelona, ac rwyf yn sicr y cewch chi groeso cynnes.

**Elen Evans**



*Yr Adran Gelf yn Barcelona*

## Actorion y Dyfodol?

Llongyfarchiadau i Catrin Hourahane (Blwyddyn 13) a Teifi Vaughan (Blwyddyn 12) ar gael eu derbyn yn aelodau o Gwmni Theatr Ieuenctid Cymru. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Caitlin Richards (Blwyddyn 12) ar yr anrhydedd o gael ei derbyn yn aelod o Gwmni Theatr Ieuenctid Prydain Fawr. Dymuniadau gorau i'r tair yn eu gwaith gyda'r cwmnïau dros yr haf.

## Ghana a Glantaf

Bu chwech o ddisgyblion Glantaf yn ffodus iawn i gael eu dewis i fynd i Ghana i gymryd rhan yn antur 'Operation Raleigh' i ddathlu'r mileniwm. Byddant yn Ghana am ddeg wythnos yn gwneud gwaith cymunedol ac amgylcheddol ac ar ôl iddynt ddychwelyd disgwylir iddynt wneud yr un math o waith yng Nghaerdydd. Mae'n siŵr y bydd yn brofiad bythgofiadwy iddynt.



*O'r chwith: Catrin Doyle, Rhiannon Phillips, Catherine Davies, William Watkins a Rhwena Thomas*

### D. J. Glantaf



*Huw Stephens a'i gyd-gyflwynydd Bethan Elfyn*

Llongyfarchiadau mawr i Huw Stephens ar gael ei ddewis yn D.J. ifancaf Radio One. Gan ddechrau ym mis Gorffennaf bydd Huw yn cydgyflwyno'r 'Evening Session in Wales' gyda Bethan Elfyn. Ar ôl sefyll ei arholiadau lefel A yr haf yma mae Huw yn bwriadau treulio'r flwyddyn nesaf yn canolbwyntio ar ei yrfa newydd gyda Radio One. Yna mae'n gobeithio dilyn cwrs 'Astudiaethau'r Cyfryngau' ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Dymunwn bob llwyddiant iddo ac edrychwn ymlaen at glywed y rhaglen gyntaf ar 22 Gorffennaf.

### Artistiaid mewn Ysgolion

Mae gweithdy 'Artistiaid mewn Ysgolion' (dan nawdd Cyngor y Celfyddydau) wedi dechrau yn yr Adran Ddrama ar gyfer ddisgyblion Blwyddyn 8. Mae yna gyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau storïo, sgiliau syrcas, a chynllunio a chreu offer a gwisgoedd ar gyfer perfformiad yn seiliedig ar 'Yr Odesi'. Cynhelir y perfformiadau Mercher 30.6.99 a Iau1.7.99.

### Cystadleuaeth Rygbi 7 Bob Ochr

Cynhaliwyd cystadleuaeth rygbi 7 bob ochr ar gyfer ysgolion Cymraeg de-ddwyrain Cymru yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf eleni. Trefnwyd y gystadleuaeth gan ddisgyblion Blwyddyn 12 sydd yn astudio cwrs CGCC Twristiaeth a Hamdden. Noddwyr y gystadleuaeth oedd Penarth Pneumatics Ltd, Peter Williams Motors o Grangetown, Quadrant Displays o'r Barri a Willis Paintwork o Landŵ. Cytunodd Jonathan Davies, cyn-faswr Cymru a Llanelli, i ddosbarthu'r gwobrau.

Meddai tiwtor y cwrs, "Chwarae teg i'r disgyblion. Fe drefnwyd cystadleuaeth wych, broffesiynol ymhob agwedd", ac meddai Sarah Williams, un o'r disgyblion, "Roedden ni wedi mwynhau'r cywaith yma, ac roedden ni'n falch i gwrdd â Jonathan Davies ac yn hapus ei fod wedi rhoi o'i amser i ddosbarthu'r gwobrau."

Dywedodd Stuart Jones a oedd wedi cysylltu â'r seren rygbi, "Roedd yn amlwg mai Jonathan Davies oedd y dewis cyntaf i ni oherwydd ei fod mor enwog ac oherwydd y ffaith ei fod yn siarad Cymraeg. Rydyn ni'n ddiolchgar iddo am fod mor fodlon i ddosbarthu ein gwobrau. Rydyn ni hefyd yn ddiolchgar i athrawon yr ysgolion a gymerodd ran yn y gystadleuaeth a dyfarnu'r gemau."


Cymerodd wyth tîm ran yn y gystadleuaeth. Yr enillwyr oedd Glantaf A. Derbyniodd yr enillwyr, sef Andrew Buckland (capten), Aled Davies, David Franklin, Elliott Plain, Gareth Jones, Mathew Mclean, Marc Carter, Alex Lewis, Rhys Blumberg, Oisin Parow, Dyfrig Rees a Tomos Gorst, y tlws. Dywedodd Mr Siôn Wyn Davies, hyfforddwr tîm rygbi Ysgol Glantaf, "Fe chwaraeodd y bechgyn steil dda o rygbi 7 bob ochr , a chystadlu'n galed."

**Rhiannon Morgan,**
**Stuart Jones.**

# YSGOL PLASMAWR


### Diwrnod Ymwybyddiaeth Genedlaethol

I gyd-fynd ag etholiadau'r Cynulliad, gwahoddwyd Rhodri Morgan (Llafur), Eluned Bush (Plaid Cymru), Myranna Bault (Ceidwadwyr) ac Alastair Meikle (Rhyddfrydwyr) i gymryd rhan yn niwrnod Ymwybyddiaeth Genedlaethol yr ysgol.



Cafodd pob ymgeisydd gyfle i siarad â'r disgyblion a'u darbwyllo i bleidleisio drostynt. Rhoddwyd cyfle hefyd i'r disgyblion saethu cwestiynau at yr ymgeiswyr. Ar 6 Mai, diwrnod yr etholiadau, cynhaliodd yr ysgol ffug etholiad i roi cyfle i'r disgyblion bleidleisio dros eu hoff ymgeisydd.

### Agoriad y Cynulliad Cenedlaethol



Aeth 60 o ddisgyblion Ysgol Plasmawr i Gastell Caerdydd er mwyn dathlu diwrnod pwysig yn hanes Cymru. Dyma adroddiad byr o'r digwyddiad gan un o'r disgyblion:

Ar 26 Mai 1999, ymwelais â Chastell Caerdydd i ddathlu agoriad y Cynulliad yng Nghymru. Roedd yr awyrgylch yn un hyfryd. Cefais gyfle i weld sêr ac enwogion o fri – Tom Jones, Shirley Bassey a'r Frenhines ei hun. Arhosodd disgyblion Plasmawr yn agos i lwyfan Radio Cymru. Roedd yr adloniant yno yn ardderchog! — *Mega*, Dafydd Du a llu o ddawnswyr a chantorion. Fe gawsom ni oll ddiwrnod bendigedig a bythgofiadwy.

**Anwen Roberts 7S**

### Taith Ddaearyddol



Ar 9–11 Mai, bu dros ddeugain o ddisgyblion Blwyddyn 8 ar daith i ogledd Cymru er mwyn gwneud gwaith maes. Roedd pawb wedi mwynhau cyflawni'r gwaith afon, cerdded Cadair Idris ac ymweld â'r Ganolfan Amgen ym Machynlleth. Arhosodd y disgyblion yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn a chawsant gyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r gwersyll. Er gwaetha'r tywydd diflas, bu'r daith yn un llwyddiannus ac roedd y disgyblion wedi mwynhau dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

### Chwaraeon



Ddydd Mawrth, 25 Mai, fe gynrychiolwyd yr ysgol yn Athletau'r Sir. Cafwyd tipyn o lwyddiant ac rydym yn llongyfarch y disgyblion isod.

| | | |
|---|---|---|
| Carl Marsh | Naid Polyn | 1af |
| Anna Saunders | 1500m | 2il |
| Elin Stewart | 800m | 3ydd |
| Gemma Winstone | 100m | 3ydd |

## Cwmnïau Caerdydd yn Cefnogi'r Gymraeg

Roedd 6 Mai yn ddiwrnod hanesyddol yng Nghaerdydd - ac nid yr etholiad oedd yr unig achos! Am y tro cyntaf, daeth aelodau Cwlwm Busnes, sef cymdeithas rwydweithio Cymry proffesiynol Caerdydd a'r cylch, at ei gilydd mewn cyfarfod ar y cyd ag aelodau Siambr Fasnach y ddinas, i gefnogi'r Gymraeg mewn masnach.

Llanwyd yr ystafell ar gyfer y cyfarfod yng Ngwesty Jury's Caerdydd. Trwy garedigrwydd cwmni Trosol, fe droswyd cyflwyniadau Ceri Preece, Llywydd y Siambr Fasnach, Rhodri Williams, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Lewis Evans, Cadeirydd Cwlwm Busnes, ar gyfer y rhai di-Gymraeg.

Soniwyd am bwysigrwydd cynyddol cwrdd â disgwyliadau'r cyhoedd a dilyn esiampl y gwasanaethau cyhoeddus trwy gynnig gwasanaethau dwyieithog yn y sector masnachol hefyd. Rhoddwyd enghreifftiau o'r elw sy'n gallu deillio o ddefnydd amlwg o'r Gymraeg, gan ennill parch gan Gymry Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd.

Mae defnyddio'r Gymraeg hefyd yn amlygu'r gwasanaeth neu'r nwyddau, er mantais dros gystadleuwyr. Yn y sector twristiaeth, mae'r Gymraeg yn abwyd wrth ddenu a diddori'r ymwelwyr tramor sydd yn codi yn eu nifer bob blwyddyn. Mae Caerdydd eleni yn llwyfannu gemau Cwpanau Criced a Rygbi'r Byd a chystadleuaeth Canwr y Byd, gyda chyfleoedd dihafal i arddangos diwylliant ac atyniadau gwahanol a difyr. Ymhlith y rhai a ddaeth i'r cyfarfod oedd un o reolwyr gwesty newydd Hilton Caerdydd, sef Patrick Lemaigre, o wlad Belg yn wreiddiol, sydd yn chwilio am nwyddau a bwydydd o Gymru i gyfrannu at ddelwedd hynod y gwesty, sy'n agor yr haf hwn.

Cafwyd cefnogaeth yn y cyfarfod i'r angen i greu cyfleoedd profiad gwaith i ddisgyblion ysgol mewn busnesau lle mae defnydd o'r Gymraeg, er mwyn i bobl ifainc gael profi rhai o'r cyfleoedd sydd ar gael bellach i ddefnyddio'u Cymraeg mewn swyddi yn y sector masnachol.

Meddai Ceri Preece, Llywydd y Siambr ac un o sefydlwyr Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch, 'Ar gychwyn fy swydd fel Llywydd y Siambr roedd yn nod gennyf i annog yr aelodau a'r gymuned fasnachol i barchu gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg ac i'w choleddu. Rwy'n hynod o falch bod cynifer wedi ymateb i'r cyfle hwn, gan ddangos ymrwymiad i wneud mwy dros y Gymraeg.'

Cyhoeddwyd yn y cyfarfod fod y Siambr Fasnach wedi llunio Cytundeb Partneriaeth â Bwrdd yr Iaith, er mwyn cynnig cyngor a chymorth ymarferol i aelodau'r Siambr sydd â diddordeb mewn defnyddio llenyddiaeth neu arwyddion dwyieithog, cynnig gwersi Cymraeg i weithwyr neu gyflwyno nwyddau a gwasanaethau dwyieithog.

Wedi nifer o gyfarfodydd llwyddiannus iawn eleni, gan gynnwys araith ddifyr tu hwnt yn y Cinio Blynyddol gan Gwnsler y Cynulliad, Winston Roddick QC, a chyflwyniadau gan Jonathan Jones, y Cymro Cymraeg cyntaf i fod yn Brifweithredwr Bwrdd Croeso Cymru, a Roger Jones OBE, Llywodraethwr y BBC yng Nghymru, bydd y Cwlwm yn cwrdd nesaf yn ei gartref arferol, sef Gwesty Churchill, ar 24 Mehefin, am 6.00 p.m., i glywed Jim O'Rourke, Prifweithredwr Urdd Gobaith Cymru, ac yna ar 7 Hydref, i fwynhau ychydig o fwrlwm Cwpan Rygbi'r Byd.

*Am ragor o wybodaeth am aelodaeth Cwlwm Busnes a'i ddigwyddiadau, cysyllter â Ceri Preece, yn Hugh James Ford Simey, Cyfreithwyr (029) 20224871.*

## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies

Er gwaetha'r holl gofrestru a llenwi ffurflenni mae dysgwyr i gyd yn ei wneud, gall neb ddweud wrthyf faint o bobl sy'n dysgu Cymraeg yng Nghaerdydd ar hyn o bryd - heb sôn am Gymru gyfan. Ond un peth sy'n amlwg: diwydiant twf yw dysgu Cymraeg hyd yn hyn. Pan oeddwn i'n blentyn, doedd bron neb yn mynd i ddosbarthiadau Cymraeg, ac os Saesneg roeddech chi'n ei siarad gartre, wel, dyna'ch iaith chi, a doedd dim byd i'w wneud amdani.

Ond ers i bobl gael y cyfle i ddysgu'r iaith (a dw i ddim yn cyfri ambell wers 'Welsh' yn yr ysgol er mwyn sioe), maen nhw wedi bod yn heidio i'r dosbarthiadau. Pam, tybed? Y rheswm rydych chi'n ei gael dro ar ôl tro gan Gymry yw ei bod yn rhan o'u hunaniaeth. 'Dw i'n Gymro,' maen nhw'n ateb yn syml iawn. Yn enwedig wrth iddyn nhw fynd i fyw dros y ffin, neu dramor, maen nhw'n dod yn ymwybodol iawn o'u Cymreictod. Os ydych chi'n honni'n falch eich bod chi'n Gymro neu'n Gymraes, ymateb llawer yw gofyn a ydych chi'n siarad yr iaith. O'r cywilydd o orfod dweud, 'Nac ydw'!

Ond nid Cymry yn unig sy'n dysgu'r Gymraeg. Mae ambell Sais goleuedig sy wedi symud i Gymru yn mynd yn syth i ddosbarthiadau, ac mae torf o Americanwyr sy'n awyddus iawn i ddod o hyd i'w gwreiddiau a dysgu iaith oedd yn cael ei siarad yn eu teuluoedd pan symudon nhw i'r Unol Daleithau. I bob un sy'n dysgu'r Gymraeg, mae o leiaf ddau fyddai'n hoffi ei dysgu pe bai'r amser ganddyn nhw. Mae cynlluniau fel 'Cymraeg yn y Gweithle' yn rhoi cyfle i lawer wrth i gwmnïau sylweddoli'r fantais o gael gweithwyr sy'n medru'r iaith.

Ond beth bynnag yw'r rheswm dros ddechrau dysgu, rwy'n siŵr bod bron pawb yn gweld rhesymau lawer dros barhau wrth iddyn nhw ddarganfod trysorau'n hiaith a'n llên. Os ydych chi'n un ohonyn nhw, daliwch ati - fyddwch chi ddim yn difaru!

**Digwyddiadau CYD**

Dydd Llun ola'r mis: Pen & Wig, 1.00 - 2.00
Nos Fercher: Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford - 9.00
Nos Iau: Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca (*City Rd*) - 9.00
Dydd Gwener: Y Bont-faen, Tafarn y Dug - 12.00

**26 Mehefin - Diwrnod o hwyl Cymraeg yn Aberhonddu**

Gweithgareddau amrywiol:
• dawnsio • gêmau • canu • darlithydd • celf a chrefft • cwis
a llawer, llawer mwy...

*Trefnir gan CYD mewn cydweithrediad â Chonsortiwm Cymraeg i Oedolion Powys. Noddir gan ACEN.*

*Am fanylion pellach, ffoniwch Padi Phillips - 029-20312293*

**Digwyddiadau eraill**

**28 Mehefin i 2 Gorffennaf** - Cwrs wythnos - safon 3 i 6 - Canolfan Dysgu Cymraeg, Prifysgol Caerdydd - *Ffôn: 029-20874710*

| | |
|---|---|
| cofrestru - to register | diwydiant twf - growth industry |
| heidio - swarm | hunaniaeth - identity |
| ymwybodol - conscious | honni - to claim |
| ymateb - reaction | cywilydd - shame |
| goleuedig - enlightened | gwreiddiau - roots |
| cynlluniau - schemes | |
| Cymraeg yn y Gweithle - Welsh in the Workplace | |
| trysorau - treasures | difaru - to regret |

Aeth criw (bach) o ddysgwyr Caerdydd ar fws CYD i Ŵyl y Dysgwyr, Llanelli ym mis Mai. Cawsom ddiwrnod ardderchog, gyda siaradwyr enwog, pob math o weithgareddau a rhywbeth at ddant pawb - a phopeth yn rhad ac am ddim! Mae'n braf gweld Llanelli yn gwneud cymaint i gefnogi dysgwyr - beth amdanoch chi, Gaerdydd?

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## Ysgol Pen-y-garth, Penarth

### Neges yr Arlywydd

Cafodd plant Ysgol Pen-y-garth gryn syndod pan dderbyniasant neges arbennig gan yr Arlywydd Clinton. Roedd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi anfon llythyr dosbarth at yr Arlywydd ym mis Ionawr. Daeth llythyr yn ôl yn nodi ei fod yn falch ein bod yn dangos y fath ddiddordeb yn ei weinyddiaeth. Yr oedd y llythyr ar bapur swyddogol y Tŷ Gwyn, ac wedi ei lofnodi gan yr Arlywydd. Mae'r llythyr yn cael ei arddangos yn yr ystafell ddosbarth, a rhoddwyd copi ohono i bob disgybl.

### Arian Ewrop

Enillodd yr ysgol werth £250 o sieciau mewn cystadleuaeth i gynllunio papur banc Ewropeaidd, cystadleuaeth a drefnwyd gan Swyddfa'r Post. Cynhaliwyd y gystadleuaeth er mwyn dathlu lawnsio pecyn addysg a baratowyd gan Swyddfa'r Post sef *Notes on Travelling to Europe*. Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 4, a gynlluniodd y papur banc gwreiddiol a lliwgar.

### Dawnswyr yn Neuadd Dewi Sant

Cynhaliwyd cyngerdd Cerddorol Ysgolion Cynradd Caerdydd a'r Fro yn Neuadd Dewi Sant ym mis Mawrth eleni. Gwelwyd rhyw ddau gant o blant yn perfformio mewn corau a cherddorfeydd ac uchel iawn oedd y safon, ond estynnwyd clod uchaf y gynulleidfa i Ddawnswyr Ysgol Gymraeg Pen-y-garth.

Disgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol oedd yn ymddangos. Gan taw hon oedd eu blwyddyn olaf yn yr ysgol penderfynodd eu hyfforddwraig, Mrs Christine Jones, na ddylai unrhyw blentyn golli'r cyfle i ymddangos ym mhrif ŵyl gerddorol ysgolion y brifddinas. Aed ati felly i hyfforddi pob plentyn i feistroli camau dawnsfeydd megis *Ceiliog y Rhedyn* a *Clawdd Offa*. Cafodd y goreuon yn eu plith y cyfle i arddangos eu doniau gyda'r glocsen yn ogystal.

Dim ond dechrau'r gwaith oedd yr hyfforddi i ddawnsio. Roedd rhaid trefnu gwisgoedd ar gyfer pob plentyn - 31 ohonynt. Daeth criw o famau brwdfrydig at ei gilydd i fesur, torri a gwnïo brethyn a chotwm i wisgoedd dawns. Aed ati i gasglu arian oddi wrth gefnogwyr a busnesau lleol i ariannu'r gwisgoedd. Codwyd digon yn yr ymgyrch i dalu am bob dilledyn.

Dan arweiniad Mrs Jones cafwyd cyfanwaith cymunedol go iawn ym mherfformiad y plant gyda'r gymuned yn cyfrannu'n ariannol a'r rhieni'n gweithio'r gwisgoedd. Gwefreiddiol oedd y dehongliad, deng munud o symud a chyd-ddawnsio graenus a phawb wrth eu bodd. Cafwyd cymorth band arbennig wedi ei greu o blith athrawon yr ysgol a ffrindiau o'r gymuned, a mawr oedd eu cyfraniad at y campwaith.



*Dawnswyr Ysgol Gymraeg Pen-y-garth yn Neuadd Dewi Sant*

## Ysgol Mynydd Bychan

Agorodd y Dosbarth Meithrin ei ddrysau ym mis Ionawr eleni a chafodd ei agor yn swyddogol ar 19 Mawrth gan Julie Morgan, Aelod Seneddol. Mae'n hyfryd gweld y rhai bach wedi ymgartrefu o dan ofal Miss Catrin Lewis a Miss Stephanie Williams.

Cawsom wahoddiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol i ganu yn Lansiad Cyngres Diwylliannau Amrywiol y Byd 2000. Aeth parti o blant i ganu yn Ystafell Locarno yn Swyddfeydd y Gymanwlad a Thramor yn Whitehall. Roedd yn brofiad anhygoel i'r plant, yr athrawon a'r rhieni. Roedd Syr Herman Ouseley, Cadeirydd y Comisiwn, wedi'i blesio yn fawr wrth glywed 'Mawl i Gymru' a'n Hanthem Genedlaethol.

Llongyfarchiadau i'r plant a fu'n cystadlu yn y Cwis Llyfrau i blant Blwyddyn 3 a 4. Daeth y darian yn ôl i'r ysgol a mawr oedd y canmol. Buont hefyd yn perfformio yn Neuadd y Ddinas ar 23 Ebrill ar Ddiwrnod y Llyfr.


Daeth Guto Owen, Cyngor Addysg Amgylcheddol yng Nghymru, ynghyd â chynrychiolwyr o Marks & Spencer, atom i lansio'r Trysor Gwyrdd, sef blwch mawr gwyrdd yn llawn adnoddau defnyddiol.

Llongyfarchiadau i Mr Marc Jon Williams a Miss Rhian Thomas, sy'n athrawon yn yr ysgol, ar eu dyweddïad.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies





## Y Bêl Hirgron



Enillodd Abertawe'r Cwpan ar Barc Ninian ganol Mai pan welwyd pum cais, pedwar ohonynt yn rhai da. Yn anffodus ni fu'r Cochion yn agos at eu safon ddisgwyliedig ond yr oedd hi'n ornest lawn gwerth ei gweld. I mi yr oedd hi'n adeg gyffrous pan oeddwn i'n ysgrifennu'r llith - ar fin cychwyn am Buenos Aires i weld Cymru'n trechu Ariannin ddwywaith ym mis Mehefin. O, oeddwn!, yr oeddwn yn hollol hyderus y gwnaem ni hynny er imi wylio'r teledïad o'r ornest gyntaf yn y wlad honno'n gynnar bore Sul cyn ymadael. Collwyd honno o 32 i 29, ac o dri chais i ddau, ond gwelwyd digon o bethau a brofai y byddai'r dyfodol yn ddisglair - er bod nerth blaenwyr Talaith Buenos Aires yn rhybudd nad enillid yn hawdd yn y ddwy ornest ryngwladol. Siomedig oedd gweld wyth y Dalaith yn ein hyrddio'n ôl o lein cyn sgorio eu cais cyntaf. Bydd yr ymweliad â'r wlad yn baratoad da ar gyfer yr ornest yn erbyn De Affrig ddiwedd Mehefin, a Chwpan y Byd, ond cyn gweld y rygbi yn Ne America, edrychwn i ymlaen yn eiddgar at ymweld â Threlew a chael diwrnod neu ddau ymhlith y rheini o'n cenedl sy'n siarad yr heniaith ymhell o'i chynefin. Byddaf yn wylo'n siŵr o'i chlywed.

## Mis Cymysg



Cymysg o ran tywydd ac o ran canlyniadau ar y gwahanol feysydd fu Mai eleni. Byddaf yn edrych ymlaen at y mis hwn bob blwyddyn - fy hoff fis am a wn i - clywed y gog a gweld ei chlychau gleision hi, dyddiau twym, braf a'r coed yn glasu. Ond nid oedd y tywydd cystal o bell ffordd ag y dylai fod wedi bod ac o'r herwydd nid oedd gwylio'r criced yn bleser, er i Forgannwg ddechrau'n llawn addewid. Curwyd Sussex yng Nghaerdydd o chwe wiced, cafodd Steve James 153 yn ail fatiad y sir o 341 am 4; a Swydd Gaerloyw ar yr un cae o 172 o rediadau wedi i Adrian Dale ddisgleirio â'i ddau gant. Ymhlith y bowlwyr cafodd Simon Jones, mab Jeff, y cyn-fowliwr cyflym, bum wiced yn erbyn Sussex yn ei ornest cyntaf yn y Bencampwriaeth, a Steve Watcyn bump ym matiad cyntaf Caerloyw a thair yn eu hail fatiad. Yna, ddiwedd y mis, colli yng Nghaerwrangon mewn gornest a orffennodd amser cinio dydd Gwener, sef mewn dau ddiwrnod a hanner.

Llain anfoddhaol ar gyfer gornest bedwar diwrnod yn ôl y sôn a phan oedd angen 198 i ennill methodd Morgannwg â sgorio mwy na 149. Difethwyd yr ornest yn Derby yn y Bencampwriaeth yn Ebrill yn llwyr gan y tywydd, a honno yn erbyn Awstralia (gêm undydd). Ni chwaraeasid gornest ola'r mis - yn erbyn Northampton gartref ar 31 Mai - pan ysgrifennais hon, ond yr oedd rhagolygon y tymor yn bur dda gan ystyried na allai'r capten, Mathew Maynard, chwarae'r un ornest bedwar diwrnod, a chollodd Steve James honno yn erbyn Caerloyw. Chwaraeodd Meic Powell yn dda yn erbyn Caerloyw, ac yng Nghaerwrangon ar y llain anodd honno pan sgoriodd 49, a saith ergyd am bedwar ymysg y rheini. I orffen y criced, rhaid sôn am y cyfleusterau yng Ngerddi Soffia; maent yn wych ac fe fu'r Awstraliaid hyd yn oed yn eu canmol, yn enwedig y rhai o dan do. Mae gobaith y chwaraeir rhagor o ornestau un-dydd yma ar ôl llwyddiant honno rhwng Awstralia a Seland Newydd yng Nghwpan y Byd - ond beth am dîm Cymru? Dylem ni fod yn chwarae yn y gystadleuaeth eleni.



## Clwb Canŵio Padlwyr y Ddraig

Os oes gennych ddiddordeb mewn canŵio, pam na ddewch chi i gwrdd â Phadlwyr y Ddraig? P'un a ydych yn ddechreuwr neu'n ganŵydd profiadol, bydd croeso yn eich disgwyl yn ein clwb bach cyfeillgar. Byddwn yn cwrdd bob dydd Sadwrn (ac eithrio yn ystod gwyliau'r ysgol) o 3.30 tan 5 p.m. ym mhwll nofio Ysgol Uwchradd Fitzalan (Lawrenny Ave, wrth ochr Ysgol Gymraeg Pwll Coch). Croeso i bawb rhwng 9 a 90 oed ond rhaid i blant (o dan Flwyddyn 11) fod yng nghwmni oedolyn. Byddwn yn cynnal sesiynau llawn hwyl yn y pwll ond cewch gyfle i ymuno â ni ar ein teithiau ar afonydd hefyd. Pam na ddewch chi i gwrdd â ni? Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Ysgrifennydd y Clwb (Hywel) ar 625064.

## Afonydd Cymru

*The Welsh Rivers* gan Chris Sladden, £15.95.
ISBN 0-9516147-2-X

Cyhoeddwyd y llyfr Saesneg hwn ychydig cyn y Nadolig diwethaf. Y mae, yn ôl ei is-deitl, yn 'Arweinlyfr cyflawn i ganŵio a cheufadio afonydd Cymru' a chynhwysir ynddo fanylion am tua 200 o afonydd y gellir canŵio dros 2,500 km ar eu hyd. (Go brin fod unrhyw wlad arall yn y byd yn gallu brolio bod ei hafonydd wedi cael eu cofnodi yn y fath fodd.) Rhoddir disgrifiad bras o bob afon, ei gogoniannau a'i pheryglon, ynghyd â map, y cyfan wedi'i seilio ar brofiad personol yr awdur a deithiodd ar bob un o'r afonydd dros gyfnod o 17 flynedd. Ar ben hynny mae dros 30 o luniau lliw o wahanol afonydd - digon i dynnu dŵr o ddannedd unrhyw ganŵydd. Yn anffodus, mae'r awdur yn ein hatgoffa bod mynd ar y rhan helaethaf o'r afonydd hynny yn golygu torri'r gyfraith gan nad oes hawl gan y dinesydd cyffredin i fynd ar ddŵr ond llond dwrn o afonydd Cymru. Perchnogion y glannau, a pherchnogion yr hawliau pysgota piau'r hawl i gau pobl eraill allan, ac mewn sawl ardal arferant yr hawl honno yn eiddgar. Bid a fo am hynny ...

**Alan a Goronwy yn y Cylch**

Testun cyfarfod olaf Cylch Llyfryddol Caerdydd am y tymor eleni oedd 'Gronwy Ddiafael Gronwy Ddu'. Mewn darlith ddiddorol odiaeth amlinellodd Alan Llwyd, awdur cofiant manwl ar Oronwy Owen (1723-69), fywyd a chymhlethdodau cymeriad y gŵr mawr hwnnw. Soniodd yn gyntaf am y 'myth' a dyfodd o'i amgylch ac a barhaodd hyd y dydd heddiw: y bardd gorchestol hwnnw a oedd am greu cerdd epig Gristnogol Gymraeg, y Cymro a hiraethai'n enbyd am ddychwelyd i'w henfro ym Môn, ei ddylanwad ar yr Eisteddfod. Gofynnodd iddo'i hun, 'A gafodd Goronwy ei gam-drin?' Gwelai ddefnydd ffilm ddramatig ar Oronwy a bu'n gweithio ar sgript ar ei chyfer. Ymrannai'n dair rhan: (1) y sefydlu - pwy oedd Goronwy, beth oedd hynt ei fywyd; (2) y gwrthdaro - rhwng y dyn a'i amgylchiadau; (3) y datrys - egluro'i bersonoliaeth. Fel ffilm seicolegol y gwelai hi a'i phrif amcan fyddai dadansoddiad o'i gymeriad cymhleth. Ond oherwydd diffyg arian digonol nis cwblhawyd hyd yn hyn.

Rhoes Alan Llwyd fanylion magwraeth Goronwy Owen yn sir Fôn, ei gysylltiad â theulu'r Morrisiaid ar hyd y blynyddoedd, ei addysg, ei fynd i Rydychen, ei urddo'n offeiriad a'r gwahanol fannau y bu'n gwasanaethu ynddynt, ei briodasau a'i blant, a'i ddiwedd ymhell o Gymru yn Williamsburg, Virginia, yn U.D.A.

Nododd fel y bu i'w gefndir tlawd ei lesteirio ar hyd ei yrfa. Er enghraifft, ni allai fanteisio ar addysg ym Mhrifysgol Rhydychen oherwydd na allai ei gynnal ei hun yno ac yntau'n awchu am addysg bob amser. Ac yn sicr nid oedd ganddo, ar unrhyw adeg yn ei fywyd, yr adnoddau llyfrau a fyddai'n gymorth iddo .

Wrth ymdrin â'i fagwraeth ac â'i yrfa yn Uppington, Walton a Northolt ac, yn y pen draw, yn Williamsburg, nodwyd fel y dôi rhyw ergyd ar ei draws bob tro a andwyai bopeth: marwolaeth ei fam ac ail-briodi ei dad yn gyntaf un, anghydfod rhyngddo ac eraill, marwolaeth un o'i blant, ei ddyledion, ei garcharu, marwolaeth ei wraig ar y fordaith i America. Bob tro yr edrychai pethau'n addawol fe'i dymchwelid ac ymhen amser aeth yn gaeth i'r ddiod. Bob tro y ceisiai eraill ei helpu - yn enwedig y Morrisiaid - ni allodd fanteisio ar y cyfle. Er hiraethu am sir Fôn dirion, eto er cael cynnig bywoliaeth yno, ni ddychwelodd fyth iddi. Yn allwedd i hyn oll, yn ôl Alan Llwyd, oedd yr elfen hunanddinistriol a berthynai i Oronwy. Ar hyd ei oes ni allodd ddod i delerau â'i fagwraeth ddifreintiedig, ni allai oresgyn ergydion bywyd, ond yn waeth, ymhob man yr âi iddo codai rhyw helynt a'i gorfodai i symud ymlaen. Bardd rhwystredig na lwyddodd fyth i ganu'r gerdd epig y dyheai am ei chanu.

Dyfynnwyd yn helaeth o'i farddoniaeth gan ddangos odidoced ei grefft. Prawf o hynny yw'r llinellau sydd ar gof gwlad hyd heddiw. Nid 'myth' mohoni, felly; yr oedd cyfraniad Goronwy Owen yn aruthrol: (1) fel bardd - ei gwpledi perffaith yn aros; (2) fel beirniad llenyddol a thrafodwr celfyddyd farddonol; (3) fel arloeswr ac arbrofwr - yr oedd wedi gweddnewid mesurau barddoniaeth Gymraeg; (4) fel sefydlydd ysgolion barddol - y canu ar destunau gwahanol; (5) fel sefydlydd mudiad - tad yr hyn a dderbyniwyd wedyn fel yr awdl eisteddfodol.

Dyma fel y gwelai Oronwy, y bardd rhwystredig a hunanddinistriol a oedd yn methu dygymod â'i fyd.

Diweddglo godidog i dymor y Cylch.

**D. Gwyn Jones**

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

# FFAIR HAF

**Sadwrn, Mehefin 26ain, 1999**
**12.00pm ymlaen**

Amrywiaeth o stondinau. Cystadleuthau lu.
Bwydydd o bob math. Gemau ac adloniant.
Yn fyr, hwyl a sbri i bawb o'r teulu.

Dewch a mwynhewch !

**YSGOL GYFUN LLANHARI**

GORAU GWAITH GWASANAETH

**Dathlu'r Chwarter Canrif**

Mae Ysgol Gyfun Llanhari yn dathlu'r Chwarter Canrif y flwyddyn nesaf. Bwriada'r ysgol gyhoeddi llyfryn yn olrhain hanes yr ysgol dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf. Os oes gennych unrhyw hanesion, erthyglau, lluniau ac ati, byddai'r ysgol yn falch iawn o glywed oddi wrthych. A wnewch chi gysylltu â'r Pennaeth (Peter Griffiths), Ysgol Gyfun Llanhari, Pont-y-clun CF72 9XE.

Rhif ffôn: 01443 237824;
Rhif ffacs: 01443 227365.
E-bost: Post@Llanhari.Rhondda.sch.uk

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

# TRYDANWR

## gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd.

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar
**01222 868208**
neu **0468 973229**

**SWYDDFA'R POST**

**THE POST OFFICE**

# CANOLFAN IAITH GYMRAEG SWYDDFA'R POST

Os hoffech gysylltu â ni yn Gymraeg i gael manylion am y gwasanaethau sydd ar gael ac i wneud ymholiadau:

ffoniwch

**0345 468 469**

SWYDDFA'R POST

Post Brenhinol

Royal Mail

PARCEL-FORCE WORLDWIDE

**PEDWAR DIWRNOD O ADLONIANT GWYCH**

# SIOE FRENHINOL CYMRU

**Gorffennaf**
**19•20•21•22 1999**
**Llanelwedd, Llanfair Ym Muallt**

- Capten Gabor Szegedi a'i Puszta 10
- Band Catrodol Catrawd Frenhinol Cymru
- Y Kangaroo Kid
- Arddangosfa Heboca Ye Olde Redtail
- Tîm Arddangos Chariots of Fire
- Tîm Cyfnewid Rhyng-Helfa
- Trotian
- Gemau Marchogaeth Y Clwb Merlod
- Coets Fawr John Parker



**Tocynnau Grŵp Teuluol ar gael ymlaen llaw**
**Dros 1,000 o Stondinau 6,500 Anifeiliaid arddangos**
GWYBODAETH PELLACH **01982 553683**